# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUCIL
## Yr Hen Ganolfan Groeso – Ceinewydd

**Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Ymgeiswyr**

1. Mae’r Les ar gyfer yr hen Ganolfan Groeso yng Ngheinewydd (y Safle) sydd wedi ei amlinellu yn goch yn unig ar y cynllun amgaeëdig. Mae hawl mynediad i gerddwyr dros y tir sydd wedi’i amlinellu mewn glas.
2. Bydd y Les am gyfnod o **Chwe mlynedd, gan ddechrau yng Ngorffennaf 2025**.
3. Adolygir y rhent - ar sail mynegai prisiau manwerthu (RPI) - ar drydydd penblwydd y dyddiad dechrau, ond nid yw amser yn hanfodol.
4. Bydd y les wedi ei heithrio o Ran II o Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954
5. Bydd y Rhent yn cael ei dalu bob hanner blwyddyn, ymlaen llaw. Taliad cyntaf wrth lofnodi’r Les.
6. Ni chaniateir trosglwyddo’r Les nac isosod y safle cyfan na rhan o’r safle.
7. Bydd y tenant yn sicrhau bod y safle’n cael ei gadw’n lân ac yn daclus a bydd yn darparu digon o ddalwyr sbwriel ac yn eu gwacáu yn rheolaidd. Ni fydd y tenant yn caniatáu papur gwastraff, sbwriel nac unrhyw fath o ddeunydd gwastraff i anharddu’r ardal o amgylch.
8. Ni chaniateir gosod byrddau a chadeiriau y tu allan i’r ardal a amlinellir yn goch ac ni ddylai’r tenant achosi rhwystrau ar y tir sy’n amgylchynu’r Safle.
9. Peidio ag achosi niwsans ar y Safle.
10. Ni chaniateir arddangos hysbysebion ar y Safle, ar wahân i enw’r tenant.
11. Bydd y tenant yn gyfrifol am yswirio’r stoc a’r offer a adewir ar y Safle.
12. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am yswirio strwythur yr adeilad ac yn trosglwyddo’r gost i’r tenant.
13. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am atgyweirio’r strwythur allanol.
14. Bydd y tenant yn indemnio'r Cyngor rhag pob cam gweithredu, cost, iawndal, hawliad a gofyniad (gan gynnwys hawliadau am iawndal yn sgil gwenwyn bwyd) sy’n deillio o werthu’r bwydydd, ac yn yswirio yn enwau’r Cyngor a'r tenant ar y cyd yn erbyn pob hawliad a galwad o'r fath.
15. Rhaid i'r tenant fodloni’r Cyngor y bydd gofynion statudol ac is-ddeddfwriaethol yn cael eu bodloni.
16. Talu'r holl ardrethi, trethi, asesiadau a chostau a godir neu a osodir ar y Safle neu ar y Cyngor neu'r tenant mewn perthynas â nhw, ar y pryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys trydan a dŵr.
17. Rhaid i'r tenant sicrhau yswiriant digonol, gan gynnwys Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy’n werth **£10,000,000** ar gyfer unrhyw ddigwyddiad penodol, a bydd yn darparu copi i’r Cyngor cyn dechrau pob tymor.
18. Efallai y bydd gofyn i’r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu geirda boddhaol oddi wrth y banc cyn i’w gais tendro gael ei dderbyn.

NODER Dim ond amlinelliad o'r Telerau a’r Amodau yw hwn ac nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf, nac unrhyw gynnig. Bydd derbyn unrhyw Gynnig yn amodol ar weithredu Cytundeb ffurfiol yn ôl telerau a gaiff eu setlo gan y Cyngor, ac mae'r Cyngor drwy hyn yn cadw'r hawl i amrywio neu i ychwanegu at yr Amodau uchod.

Rheolwr Tîm – Rheoli Asedau, Yr Adain Ystadau, Economi ac Adfywio, Neuadd Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA